National Trust

Ein partneriaid
COTSWOLD outdoor

WALES

# Taith Porthor

Mwynhewch arfordir garw ochr ogleddol Penrhyn Llŷn. Mae hon yn daith wych i amgyffred peth o hanes a threftadaeth yr ardal.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Aberdaron, Gwynedd

Map AO: Landranger 253

Gweithgaredd: Cerdded

Hawdd

Addas i gŵn: Er bod croeso i gŵn ar y llwybr cerdded hwn, cofiwch mai dim ond yn ystod misoedd y gaeaf y caiff cŵn fynd ar y traeth (1 Hydref i 31 Mawrth).

Llwybr llawn: Milltiroedd: 1 (km: 1.6)

Mynediad: Hawdd

Hyd: 30 munud - 1 awr

## Cyfanswm y camau: 8

Man cychwyn: Maes parcio ym Mhorthor, cyfeirnod grid: SH170293

1. O'r maes parcio dilynwch lwybr yr arfordir ar hyd y llwybr rhwng y ddau gaban toiledau, yna trwy glwstwr o goed helyg.
2. Cewch olygfeydd gwych o Borthor i lawr i'r dde. Yn Saesneg, mae'r traeth yn cael ei alw yn 'Whistling Sands' oherwydd y wich neu sŵn chwibanu y mae'r tywod yn ei wneud dan draed. Dilynwch y llwybr nes dewch chi at fainc a giât mochyn ar y chwith i chi.
3. Ewch trwy'r giât mochyn a dilyn y llwybr sy'n troelli ar hyd yr arfordir. Rydym yn adfer llethrau'r clogwyn ar y dde i chi, trwy ddefnyddio chwistrellu o'r awyr i reoli rhedyn a mynd yn ôl at draddodiad pori'r arfordir.
4. Byddwch yn wyliadwrus yma; efallai y byddwch chi'n ddigon lwcus i weld morlo, llamhidydd neu hyd yn oed ddolffin yn nofio oddi ar yr arfordir.
5. Y ddwy ynys i lawr ar y dde i chi yw Dinas Bach a Dinas Fawr. Ymhellach ar hyd yr arfordir yn y pellter fe welwch chi gopa Mynydd Anelog yn codi o Fôr Iwerddon.
6. Yn fuan ar ôl i chi fynd heibio'r ynys gyntaf fe ddewch at giât mochyn gydag un arall yn union ar y chwith i chi. Ewch trwy'r ddwy, gan ddilyn yr arwyddion i fyny llethr graddol.
7. Dilynwch yr arwyddion o gwmpas ochr y cae i fyny at fferm Carreg. Trowch i'r dde trwy'r giât mochyn olaf a dilyn yr arwyddion oren heibio Carreg i'r ffordd. Chwiliwch am y garreg goch, iasbis, arbennig, yr oedd gwaith yn arfer tyllu amdani yma ar fferm Carreg.
8. Pan gyrhaeddwch chi'r ffordd trowch i'r chwith. Ar ôl tua 650 llath (600m) fe welwch chi arwydd Porthor. Dilynwch y lôn yn ôl i'r man cychwyn yn y maes parcio.

Man gorffen: Maes parcio ym Mhorthor, cyfeirnod grid: SH170293